**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol o'r enw 'Tu ôl i'r llenni: Gweithlu'r diwydiannau creadigol'.**

---

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r naw argymhelliad a geir ynddo.

**Argymhelliad 1**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Strategaeth Ddiwylliant sydd ar ddod yn nodi cefnogaeth ar gyfer datblygu a chynnal y gweithlu yn sectorau'r celfyddydau a cherddoriaeth.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae cwmpas y Strategaeth Ddiwylliant ddrafft yn cynnwys y celfyddydau, treftadaeth, amgueddfeydd, archifau a sectorau llyfrgell. Mae'r naratif strategaeth ddrafft ar lefel uchel ac ni fydd yn cynnwys uchelgeisiau penodol ar gyfer datblygu a chynnal gweithlu'r sector celfyddydau a cherddoriaeth. Fodd bynnag, mae'r strategaeth ddrafft ar hyn o bryd yn cynnwys uchelgeisiau ynghylch sicrhau bod ein sectorau'n lleoedd gwych i weithio a gwirfoddoli ynddynt. Mae'r strategaeth yn parhau i fod ar ffurf drafft a bydd angen ystyriaeth bellach yng ngoleuni cyhoeddi'r gyllideb ddrafft a'r effeithiau posibl ar y sectorau diwylliannol, treftadaeth a chreadigol.

Mae datblygu sgiliau yn flaenoriaeth ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cyngor Celfyddydau Cymru (ACW) gyda Cymru Greadigol, ac mae trafodaethau ynghylch gweithwyr llawrydd eisoes ar y gweill. Mae cronfeydd agored y Loteri (Creu) CCC yn agored i geisiadau hyfforddi a datblygu sgiliau ac fe'u defnyddir yn aml at y diben hwn. Mae CCC hefyd yn cefnogi rhaglenni a phrosiectau allweddol yn uniongyrchol fel Bwrsariaethau Creadigol Weston Jerwood, ac mae ganddo hefyd ddisgwyliadau o'r sefydliadau y mae'n eu hariannu. Mae Meithrin Talent yn egwyddor a arweiniodd benderfyniadau CCC ar ba sefydliadau a gynigiwyd cyllid amlflwyddyn iddynt fel rhan o'i Adolygiad Buddsoddi.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol

**Argymhelliad 2**

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae'n cydlynu mentrau i sicrhau bod digon o sgiliau Cymraeg ar gael yn y diwydiannau creadigol. Os nad oes cynlluniau penodol ar waith ar hyn o bryd, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid sydd angen sgiliau Cymraeg i ddatblygu a gweithredu cynllun i gynyddu y gweithlu Cymraeg ei iaith yn y diwydiannau creadigol.

**Ymateb:** Derbyn

Mae datblygu'r Gymraeg ar draws y Sector Creadigol yn flaenoriaeth allweddol i Gymru Greadigol. Mae ein Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol tair blynedd yn

amlinellu ein hamcan i ganfod, cefnogi a meithrin doniau creadigol Cymraeg gyda chamau penodol i gefnogi talent yn y Gymraeg a'r rhai o gefndiroedd amrywiol i ymuno â'r diwydiant a symud ymlaen yn y sector creadigol. Ar ben hynny, mae'r Cynllun Gweithredu yn ymrwymo i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei hyrwyddo a'i darparu drwy'r Gymraeg lle bo hynny'n bosibl a bod y rhai sydd â diddordeb mewn dysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg yn cael cyfle i wneud hynny. Ar hyn o bryd mae Cymru Greadigol yn gweithio gydag S4C a Ffilm Cymru ar gynllun Sinema, i ddatblygu ffilmiau Cymraeg eu hiaith. Fel rhan o'r cynllun hwn, rydym wedi ariannu'r cwrs ysgrifennu sgriptiau Cymraeg O'r Sgript i'r Sinema a gyflwynwyd ar y cyd â NFTS Cymru Wales ac S4C.

Mae'r strategaeth ddiwylliant ddrafft hefyd yn tynnu sylw at bwnc sgiliau Cymraeg ar draws y sectorau sy'n cael eu cynnwys.

Mae rhaglen *Cymraeg Gwaith* y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu cyrsiau sy'n amrywio o gyrsiau blasu hunan-astudio ar-lein i gyrsiau dysgu dwys. Yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd ohoni, mae *Cymraeg Gwaith* hefyd yn caniatáu i gyrff ddarparu gwasanaethau Cymraeg gwell i'w defnyddwyr. Mae'r Coleg Cymraeg hefyd yn annog mwy o bobl ifanc i astudio cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg wrth ymgymryd ag addysg ôl-16 ac mae'n gweithio i gynyddu capasiti cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn sectorau allweddol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

## Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag undebau llafur a chwmnïau cynhyrchu, nodi arfer gorau i sicrhau y gall gweithwyr weithio mewn amgylchedd heb wahaniaethu, bwlio a rhagfarn. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Cymru Greadigol yn bwrw ymlaen ag ystod o gamau i helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethu, bwlio a rhagfarn yn y sector sgrin, gan weithio gydag undebau llafur a diwydiant. Mae hyn yn cynnwys datblygu camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhelliad a nodir yn adroddiad *Gwaith Da* Canolfan Polisi a Thystiolaeth y diwydiannau creadigol (PEC), adeiladu ar lwyddiant y prosiect Hwyluswyr Lles a rôl contractau economaidd mewn cyllid cynhyrchu, ac ymgysylltu ag Asiantaeth Safonau Annibynnol y Diwydiannau Creadigol ledled y DU.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol. Bydd unrhyw fentrau newydd a ddatblygwyd i gefnogi'r gweithgaredd hwn yn 2024/25 yn destun prosesau cytundebau gweinidogol a chyllidebol.

## Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru adolygu pa adnodd ychwanegol sydd ei angen ar sectorau'r celfyddydau, diwylliant a cherddoriaeth i

sicrhau setliadau cyflog teg ac amlinellu pa gymorth ychwanegol y gallant ei ddarparu. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r ysgogiadau polisi a'r dylanwad sydd ganddi i hyrwyddo ac annog gwaith teg.  Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda chyrff hyd braich diwylliannol ac undebau llafur, sy'n cynrychioli gweithwyr yn y sectorau diwylliannol a chreadigol.

Rydym ni a'n partneriaid yn ymwybodol o'r problemau sy'n ein hwynebu gyda'n gilydd wrth geisio gwella cyflogau, telerau ac amodau a'r heriau penodol o ran gweithwyr llawrydd.  Nid ydym yn credu y byddai adolygiad ychwanegol yn ychwanegu gwerth nac yn gwella ein dealltwriaeth o'r problemau, y rhwystrau a'r cyfleoedd.

Rydym yn cydnabod nad yw cyfraith cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol wedi'u datganoli ac mae gan Lywodraeth y DU bwerau wrth gefn pwysig i wella hawliau gweithwyr, codi safonau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol, a chryfhau hawliau gweithwyr llawrydd.  Nid yw'r Bil Cyflogaeth a addawodd Llywodraeth y DU yn 2019 wedi ei wireddu.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymwybodol bod ffactorau eraill yn dylanwadu ar gyflogau, gan gynnwys cwmpas a chyllideb yn y farchnad fasnachol, sydd i'w ddisgwyl.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**<u>Argymhelliad 5</u>**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys darpariaethau ar gyflog teg ac amodau gwaith a'r defnydd o hwyluswyr llesiant yn y Strategaeth Ddiwylliant sydd i ddod.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae'r Strategaeth Ddiwylliant ddrafft yn cynnwys sectorau'r celfyddydau, treftadaeth, llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau.

Mae'r defnydd o hwyluswyr llesiant yn digwydd yn y sector diwydiannau creadigol sydd y tu allan i gwmpas y strategaeth ddiwylliant.

Mae cyflog teg, o leiaf yn unol â lefelau yr undebau ble yn berthnasol, yn ofynnol ar gyfer holl gyfleoedd cyllid CCC.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim goblygiadau ariannol.

**<u>Argymhelliad 6</u>**

Dylai Llywodraeth Cymru brif ffrydio cymalau cytundebol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn cytundebau cyllido cynhyrchu i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Dylid nodi'r defnydd o'r rhain hefyd o fewn y Strategaeth Ddiwylliant sydd ar ddod, a'i ddefnyddio lle bynnag y bo modd.

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

Mae Cymru Greadigol wedi ymrwymo i ddefnyddio cyllid cynhyrchu i gefnogi gwelliannau mewn meysydd allweddol gan gynnwys sgiliau, amrywiaeth a chynhwysiant, cynaliadwyedd a gwaith teg. Mae'r rhain yn gweithio ochr yn ochr â'r addewidion o fewn y contract economaidd, y mae'n rhaid i bob cwmni sy'n derbyn cymorth cyllido cynhyrchu gofrestru iddo yn barhaus.

Rydym eisoes yn gofyn i ymgeiswyr am gyllid ddangos bod ganddynt ymrwymiad i amrywiaeth, cynwysoldeb a chynaliadwyedd. Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu meini prawf ariannu pellach sy'n gysylltiedig â'r materion hyn, gan ddefnyddio canllawiau arbenigol fel sylfaen, megis safonau amrywiaeth a chynhwysiant BFI a'r pecyn cymorth iechyd meddwl a gyhoeddwyd gan yr Elusen Ffilm a Theledu.

Mae holl dderbynwyr Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol wedi ymrwymo'n gytundebol i ddarparu lleoliadau dan hyfforddiant cyflogedig, ar lefel mynediad ac ar lefelau uwchsgilio. Mae'n ofynnol i gwmnïau cynhyrchu sicrhau fod pob lleoliad yn cael ei recriwtio ar sail deg a thryloyw i gefnogi datblygiad gweithlu cyfartal, amrywiol a chynhwysol yn y sector sgrin yng Nghymru.

Mae'r Strategaeth Ddiwylliant ddrafft yn cynnwys uchelgais glir ynghylch sicrhau bod diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol. Gyda chefnogaeth ymrwymiadau Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol ar gyfer diwylliant, bydd yr uchelgais hwn yn parhau i fod yn faes sy'n canolbwyntio ar bob sector.
Gweithio gyda'r cyrff a noddir gennym i sicrhau eu bod yn defnyddio eu pwerau gwario i roi arferion gwrth-hiliol ar waith, hwyluso mynediad a chanlyniadau cydradd, a chynyddu lefelau cyfranogiad ymhlith pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i'r eithaf. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys nod penodol a set o gamau gweithredu sy'n golygu bod yn rhaid i sefydliadau a ariennir gyflawni mesurau gwrth-hiliol.

Ni all y Strategaeth Ddiwylliant ddrafft gynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â defnyddio cymalau cytundebol penodol oherwydd yr ystod eang o gyd-destunau cytundebol sy'n bodoli ar draws y sectorau.

Mae ehangu Ymgysylltu yn un o chwe egwyddor CCC sy'n llywio ei waith a'i fuddsoddiad yn y celfyddydau. Caiff hyn ei asesu'n rheolaidd fel rhan o unrhyw gyfle ariannu - gan gynnwys yn yr Adolygiad Buddsoddi diweddar - o ran pwy sy'n gwneud gwaith, ar gyfer pwy mae'r gwaith a llywodraethu a staffio sefydliadau a phrosiectau.

**Goblygiadau Ariannol**: Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol

**<u>Argymhelliad 7</u>**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a'r partneriaid academaidd i amlinellu sut y gall wella casglu data ar gydraddoldeb, amrywiaeth a

chynhwysiant. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn tri mis ar sut mae'n bwriadu cyflawni hyn.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lansiwyd yn ddiweddar rhwng Cymru Greadigol a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cynnwys ymrwymiadau i gydweithio i rannu data a chasglu ymchwil a thystiolaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn sectorau o fewn eu cylch gwaith.

Yn ogystal, mae'r Strategaeth Ddiwylliant ddrafft wedi nodi'r angen am ddull strategol a chydweithredol mewn perthynas ag ymchwil a chasglu data ar draws ein sector diwylliannol cyfan ac mae hyn yn cael ei nodi fel datganiad uchelgais yn y strategaeth ddrafft. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol hefyd yn nodi'r angen i sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus gasglu data amrywiaeth ethnig a chymryd camau i gynyddu amrywiaeth ethnig ar bob lefel o'r sefydliad.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o fewn tri mis.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol

## Argymhelliad 8

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael drwy'r Gronfa Sgiliau Creadigol ac yn gweithio gyda diwydiant i nodi bylchau mewn sgiliau yn y dyfodol.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol tair blynedd eisoes yn ymrwymo i Gronfa Sgiliau Creadigol flynyddol gwerth tua £1M, a fydd yn ceisio cefnogi prosiectau sy'n cyflawni yn erbyn y 10 maes blaenoriaeth a nodwyd. Mae'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol tair blynedd eisoes yn ymrwymo i Gronfa Sgiliau Creadigol flynyddol gwerth tua £1M, a fydd yn ceisio cefnogi prosiectau sy'n cyflawni yn erbyn y 10 maes blaenoriaeth a nodwyd. Yng nghyd-destun y gyllideb gyfyngedig sydd ar gael i Gymru Greadigol i gefnogi gweithgarwch ar draws ein his-sectorau blaenoriaeth a meysydd ffocws, mae hyn yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r gyllideb refeniw yn flynyddol. Fodd bynnag, rydym yn manteisio ar bob cyfle i wneud y mwyaf o'r cymorth sydd ar gael i ddatblygu sgiliau a doniau yn y sector, gan edrych ar yr holl opsiynau i ysgogi buddsoddiad ychwanegol, gan gynnwys trwy brosiectau partneriaeth gyda chyllid cyfatebol i sicrhau'r gwerth mwyaf am arian.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Bydd unrhyw gyllid newydd i gyflawni gweithgarwch cysylltiedig yn 2024/25 yn destun prosesau cytundebau gweinidogol a chyllidebol.

## Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth tymor hwy (y tu hwnt i 2024) a ariennir ar gyfer datblygu sgiliau yn y diwydiannau creadigol.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym eisoes yn darparu cymorth y tu hwnt i 2024 fel yr amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol, sy'n rhedeg tan fis Medi 2025 ac sy'n ymrwymo i Gronfa Sgiliau Creadigol flynyddol gwerth tua £1M, a fydd yn ceisio cefnogi prosiectau sy'n cyflawni yn erbyn y 10 maes blaenoriaeth a nodwyd.

Yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar rhwng CCC a Cymru Greadigol, mae sgiliau wedi'u nodi fel maes o flaenoriaeth gyffredin, gydag ymrwymiad i gydweithio ymhellach.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Bydd unrhyw gyllid newydd i gyflawni gweithgarwch cysylltiedig yn 2024/25 yn destun prosesau cytundeb gweinidogol a chyllidebol.

**Argymhelliad 10**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio ar y cyd ag ysgolion, darparwyr addysg a'r diwydiannau creadigol i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r ystod o gyfleoedd gyrfaol, a bod ganddynt y sgiliau gofynnol, i weithio yn y diwydiannau creadigol. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn diwedd mis Mawrth 2024 gydag amlinelliad o sut y bydd yn gwneud hyn.

**Ymateb:** Derbyn

Un o brif flaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol tair blynedd yw rhesymoli  gyrfaoedd yn y sectorau cerddoriaeth, cyfryngau digidol a sgrin gyda ffocws i gefnogi mentrau sy'n gwneud llwybrau gyrfa yn gliriach, rolau mwy gweladwy ar draws pob sector blaenoriaeth a dangos sut i gael mynediad i'r diwydiant yn hawdd.  Mae mentrau sy'n codi dyheadau gyrfa i bobl ifanc o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o ddiddordeb arbennig.

Mae nifer o brosiectau cyfredol a gefnogir drwy'r Gronfa Sgiliau Creadigol eisoes yn mynd i'r afael â'r maes hwn; rhwydwaith Academïau Sgrin newydd sy'n gosod ystafelloedd dosbarth o fewn pedair stiwdio ffilm weithredol ledled Cymru.  Mae Screen Alliance Wales, sy'n cyflwyno'r Academïau Sgrin, yn gweithio gyda Gyrfa Cymru a phob Awdurdod Lleol yng Nghymru ac wedi cofnodi dros 400 o ymweliadau i ysgolion hyd yma; Mae Beacons Cymru yn fenter gerddoriaeth sy'n darparu elfennau fel SUMMIT 2024, cynhadledd arloesol y diwydiant cerddoriaeth, a gynlluniwyd ac a ddarperir gan bobl ifanc i bobl ifanc yng Nghymru a Bŵts, cyfres ddwyieithog newydd o fideos sy'n codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd sy'n dangos llwybrau pwysig i weithlu'r diwydiant cerddoriaeth a Gêm, canolfan gemau newydd sy'n cael ei rheeg gan Academi Cyfryngau Cymru gyda BTEC lefelau 1 -3 mewn dylunio gemau sy'n anelu at ddatblygu gweithlu creadigol sy'n adlewyrchu pob cymuned.

Bydd Gyrfa Cymru yn gweithio gyda phob ysgol uwchradd, ysgol arbennig, Uned Cyfeirio Disgyblion a choleg er mwyn helpu pobl ifanc i gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd yn fwy effeithlon mewn marchnad swyddi gystadleuol sy'n newid yn

barhaus. Hefyd, mae adnoddau digidol Gyrfa Cymru yn helpu dysgwyr i ystyried llwybrau gyrfa posibl, gan gynnwys llwybrau sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol a manylion am gyrsiau addysg bellach ac addysg uwch sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol.

Mae gweithgareddau cysylltiedig eraill a drefnir gan Gyrfa Cymru yn cynnwys:

- dwy "Wythnos Darganfod Gyrfaoedd" y flwyddyn – un ar gyfer ysgolion cynradd ac un ar gyfer ysgolion uwchradd, gan gynnwys cyfres o heriau a arweinir gan gyflogwyr, gydag adnoddau athrawon sy'n cyd-fynd â hwy, yn gysylltiedig â phob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm i Gymru; mae'r ddau yn cynnwys deunydd am y diwydiant creadigol.
- digwyddiad diwydiannau creadigol ar raddfa fawr ar y cyd ag amrywiol randdeiliaid allweddol o'r sector; yn ogystal â chyfres o ffeiriau gyrfaoedd rhanbarthol, wedi'u brandio fel "Dewis Eich Dyfodol", gan gynrychioli llawer o gyflogwyr o'r sector creadigol.

Ym maes cerddoriaeth, mae'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth yn nodi haen gwaith, "Creu cerddoriaeth gydag eraill – diwydiannau perfformio a chreadigol", lle mae'r Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol yn gweithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, Urdd Gobaith Cymru, Cymru Greadigol, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sector creadigol ehangach, i helpu i gyfeirio pobl ifanc i gael mynediad at lwybrau gyrfa i'r diwydiannau creadigol. Mae hyn yn cynnwys darparu llwybrau a gwybodaeth am brentisiaethau i yrfaoedd eraill yn y diwydiant cerddoriaeth, i fod ar gael i ysgolion, lleoliadau a phobl ifanc, a chefnogi datblygiad sgiliau ymarferwyr mewn recordio a chynhyrchu a gwybodaeth a phrofiad yn y diwydiant.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd wedi cymryd rhan mewn mentrau datblygu gyrfa o amgylch y Celfyddydau Mynegiannol ac mae'n ymwneud â helpu i ddatblygu dull Seren at y Celfyddydau Mynegiannol a bydd yn gweithio mewn partneriaeth â chonsortia addysg a phartneriaid i gefnogi llwybrau gyrfa ymhellach.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Mae Gyrfa Cymru yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru; mae eu gwaith, sy'n cefnogi addysg gyda phobl ifanc, rhieni, darparwyr addysg a chyflogwyr, yn cael ei ariannu drwy eu grant craidd gan Lywodraeth Cymru, sydd ar gyfer 2023-24 yn £20m. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol yn cael ei gefnogi gyda chyllid grant Llywodraeth Cymru o £13.5 miliwn, ar gyfer y cyfnod 2022-23 i 2024-2025 (sy'n cyfateb i £4.5 miliwn y flwyddyn).

## Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad brys o iechyd ariannol lleoliadau celfyddydol yng Nghymru mewn cydweithrediad â Chyngor Celfyddydau Cymru, yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerdd a sefydliadau addas eraill. Dylid cwblhau'r asesiad hwn cyn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn caniatáu i unrhyw gymorth pellach gael ei ddarparu os oes angen.

**Ymateb:** Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn. Mae adolygu iechyd ariannol lleoliadau celfyddydol yng Nghymru yn fater i Gyngor Celfyddydau Cymru.

Mae CCC eisoes yn cadw data ar iechyd ariannol y 67 sefydliad a ariennir gan refeniw sy'n rhan o Bortffolio presennol Celfyddydau Cymru, sy'n cynnwys lleoliadau.

Yn ogystal, mae CCC ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o anghenion cyfalaf lleoliadau celfyddydol ledled Cymru.

Mae swyddogion yn cysylltu â lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad ledled Cymru yn rheolaidd ac yn ymwybodol o unrhyw rai sy'n wynebu anhawster. Ers ei lansio yn 2020, mae Cymru Greadigol wedi buddsoddi ychydig o dan £9m mewn lleoliadau cerddoriaeth, stiwdios recordio, mannau ymarfer a chyflenwyr. Mae rownd arall o gyllid sylweddol ar gyfer lleoliadau llawr gwlad newydd ei gyhoeddi.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim goblygiadau ariannol.

**<u>Argymhelliad 12</u>**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad brys o iechyd y sector sinema mewn cydweithrediad â Ffilm Cymru. Dylid cwblhau'r asesiad hwn cyn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn caniatáu i unrhyw gymorth pellach gael ei ddarparu os oes angen.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Darperir cefnogaeth i sinemâu ar draws nifer o bartneriaid. Bydd Cymru Greadigol yn ymgysylltu â Chyngor Celfyddydau Cymru a phartneriaid eraill, fel y bo'n briodol, i archwilio'r argymhelliad hwn ymhellach.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim goblygiadau ariannol. Bydd unrhyw gyllid newydd i gyflawni gweithgarwch cysylltiedig yn 2024/25 yn destun prosesau cytundeb gweinidogol a chyllidebol.

**<u>Argymhelliad 13</u>**

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canlyniadau peilot Incwm Sylfaenol i'r Celfyddydau Llywodraeth Iwerddon ar yr adeg briodol.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod â Llywodraeth Iwerddon i drafod y peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer y Celfyddydau a'r rhaglen ymchwil sydd wedi'i sefydlu i asesu ei effaith ar artistiaid, gweithwyr y celfyddydau creadigol a'r sector celfyddydau. Mae hon yn rhaglen dair blynedd hirdymor, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â swyddogion yn Iwerddon yn ystod y broses hon. Rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle i ddysgu o beilot Incwm Sylfaenol Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru, fel y bo'n briodol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**Dawn Bowden AS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**